Yna llefarodd Iesu wrthynt eto. “Myfi yw goleuni’r byd,” meddai. Ni bydd neb sy’n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni’r bywyd.”
(Ioan 8:12)

Dyma’r ail o’r saith datganiad mawr gan yr Arglwydd Iesu sydd yn dechrau gyda’r geiriau ‘Myfi yw.’ Mae’n datgan mai ef yw goleuni’r byd. Does dim dwywaith na allai’r byd fyw heb oleuni, ac mae Mab Duw yn cadarnhau mai ef yw ffynhonnell bywyd, yn arbennig bywyd ysbrydol yng nghyd-destun y gosodiad hwn.

Cefndir

Gŵyl y Pebyll

Mae rhai yn gweld yr adnodau hyn fel dilyniant o ddiwedd pennod saith ac felly’n digwydd yr un pryd, sef ar ŵyl y Pebyll. Roedd seremoni arbennig wedi bod ar ddydd cyntaf yr ŵyl, sef ‘Goleuo’r Deml’. Roedd yn cael ei cynnal yn Llys y Gwragedd yn y Deml. Roedd pedwar canhwyllbren mawr wedi eu paratoi yng nghanol y llys. Fe’u cyneuwyd adeg y machlud, ac fe ddywedwyd bod eu golau yn goleuo’r holl ddinas. Yna byddai arweinwyr Israel yn dawnsio gerbron yr Arglwydd ac yn canu salmau o lawenydd, tra bod y bobl yn eu gwylio.

Byddai hyn yn dal ym meddyliau’r bobl, a byddai geiriau Iesu’n siŵr o’u taro wrth iddo ddweud mai Ef oedd nid goleuni Jerwsalem yn unig, ond goleuni’r byd. Goleuni dros dro oedd goleuni’r ŵyl, ond Iesu yw goleuni tragwyddol y byd.

Adnodau 1-11

Mae’r adran yna ar waelod y dudalen yn y cyfieithiadau newydd, oherwydd nad yw’r darn yn llawer o’r llawysgrifau gorau. Serch hynny, mae’r hanes yn hollol nodweddiadol o Iesu ac o’r Phariseaid. Ar ben hynny, mae’n eglureb o waith Crist fel goleuni’r byd. Yng nghanol dynoliaeth sy’n gwegian dan bwysau pechod, yn agored i farn Duw ac mewn angen am iachawdwriaeth, mae Iesu’n haeru mai Ef yw ffynhonnell eu goleuni ysbrydol a’u hiachawdwriaeth dragwyddol. I bawb sy’n dod o fewn ei gyrraedd, mae’n cyhoeddi Efengyl gwaredigaeth rhag pechod, a heddwch parhaus.

Goleuni

Gallwn feddwl am oleuni yn gwneud tri pheth, o leiaf, sef rhoi trefn, datguddio ac arwain.

Rhoi trefn.
Mae goleuni Crist yn rhoi diwedd ar anhrefn. Wrth inni ddarllen hanes y Creu yn Genesis, fe symudodd Duw ar yr anhrefn afluniaidd a gwag oedd yn bodoli cyn y byd, a dweud: **"Bydded goleuni"** (Gen.1.3). Parodd y goleuni i'r anhrefn gwag ffoi. Yn yr un modd, Iesu yw'r **"goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch"** (Ioan 1:5), yn dod â threfn allan o anhrefn bywyd pechadur. Gallem feddwl am bechod yn arwain dyn i fywyd afluniaidd a gwag. Daw trefn a phwrpas i'n bywyd trwy adnabod Iesu Grist.

Datguddio.
Mae goleuni Crist yn oleuni sy'n datguddio. Mae goleuni yn symud tywyllwch. Mae'r hyn fu'n guddiedig yn y cysgodion yn dod i'r amlwg. Mae'r hyn fu dan orchudd y duwch yn dod i'r amlwg. Dywed Iesu fod llawer o bobl yn caru'r tywyllwch yn fwy na'r goleuni, a'u bod o dan gondemniad Duw am hynny. Y rheswm nad yw pawb am ddod at y goleuni yw eu bod yn amharod i'w gweithredoedd gael eu dadlennu. Mae'r sawl sy'n dod at y goleuni yn barod i ddod â phopeth i'r amlwg a delio â'r cyfan. Ni all y sawl sydd mewn cymundeb â Duw, ac â Christ, rodio yn y tywyllwch. Does dim cuddio i fod, does dim cuddio'n bosibl gerbron Crist.

Arwain.
Mae goleuni yn rhoi arweiniad hanfodol mewn tywyllwch. Allem ni ddim gyrru'r car yn y nos heb y goleuadau. Mor werthfawr yw'r goleudy sydd yn arwain llongau i osgoi'r creigiau wrth geisio mynd i mewn i harbwr diogel. Yn yr adnod yma, mae Iesu'n dweud y bydd pob un sy'n ei ddilyn yn osgoi'r tywyllwch ac yn mwynhau goleuni'r bywyd.

Dilyn y golau

Mae dilyn y goleuni yn golygu ymddiried ac ufuddhau i Grist. Mae'n golygu credu ynddo a chadw'i orchmynion mewn diolchgarwch. Rhaid dilyn y golau, nid dilyn ein llwybr ein hunain trwy dywyllwch bywyd yn y byd. Roedd gŵyl y Pebyll yn atgoffa'r Iddewon o daith yr anialwch. Cawsant oleuni'r golofn dân i'w harwain yn y nos i wlad Canaan. Serch hynny, goleuni allanol oedd golau colofn yr anialwch a chanhwyllbrennau Llys y Gwragedd, tra bod goleuni Crist yn dod yn feddiant mewnol i'w bobl.

Goleuni'r bywyd

Rhaid cofio hefyd mai goleuni yw ffynhonnell bywyd yn y byd. Iesu Grist yw ffynhonnell y bywyd tragwyddol, oherwydd mai Ef yw'r goleuni. Nid yn unig mae'n rhoi goleuni, Ef yw y goleuni. Nid yn unig mae'n ein harwain i fywyd tragwyddol, Ef yw y bywyd tragwyddol.

Diolch am y golau!